

WL3

Hanfodion COSHH ar gyfer weldio, gwaith poeth a phrosesau perthynol

Mae'r Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002 (COSHH) yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr sicrhau bod amlygiad wedi ei atal, neu ble nad yw hynny'n rhesymol ymarferol, wedi ei reoli'n ddigonol. Mae'r canllaw hwn yn rhoi cyngor ymarferol ar sut i gyflawni hyn trwy weithredu egwyddorion arfer da ar gyfer rheoli amlygiad i sylweddau sy'n beryglus i iechyd, fel sy'n ofynnol dan COSHH.

Mae wedi ei anelu at bobl y mae eu cyfrifoldebau yn cynnwys rheoli sylweddau peryglus i iechyd yn y gwaith (e.e. arbenigwyr iechyd galwedigaethol, unrhyw un yn cyflawni asesiadau COSHH a goruchwylwyr). Mae hefyd yn ddefnyddiol i gynrychiolwyr undebau llafur a diogelwch cyflogion. Bydd yn eich helpu i gyflawni asesiadau COSHH, adolygu asesiadau cyfredol, darparu hyfforddiant a goruchwyllo gweithgareddau yn ymwneud â sylweddau sy'n beryglus i iechyd.

Cyhoeddir y canllaw hwn gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Nid yw'n orfodol i ddilyn y canllaw, oni bai y nodir hynny'n benodol, ac rydych yn rhydd i weithredu fel arall. Ond os byddwch yn dilyn y canllaw, byddwch fel arfer yn gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith. Mae arolygwyr iechyd a diogelwch yn ceisio sicrhau cydymffurfiaid â'r gyfraith a gallant gyfeirio at y canllaw hwn. Gweler Gwybodaeth allweddol.

Rheoli mygdarth weldio

Dull rheoli 1 Awyru cyffredinol
Dull rheoli 2 LEV ac RPE

Beth mae'r ddalen hon yn ei drafod

Mae'r ddalen hon yn disgrifio arfer rheoli da wrth ddefnyddio:

- awyriad gwacáu lleol (LEV) Dull rheoli 2;
- offer resbiradol amddiffynnol (RPE) Dull rheoli 2;
- awyru cyffredinol Dull rheoli 1.

Mae'n trafod y pwyntiau allweddol i'w dilyn i leihau'r amlygiad i lefel ddigonol ar gyfer y prosesau weldio canlynol:

- weldio arch metel â llaw (MMA neu ffon);
- weldio arch craidd fflwcs (FCA);
- weldio nwy anadweithiol metel (MIG) a nwy adweithiol metel (MAG);
- weldio nwy;
- weldio nwy anadweithiol twngsten (TIG);
- eldio sbotyn ymwrthedd.

Ymarfer rheolaeth dda ar gyfer mygdarth weldio

Amllder a hyd weldio	Math o weldio	Ymarfer rheolaeth dda
Weldio hwnt ac yma neu ddwyster isel	Nwy, MMA, FCA, MIG, MAG	LEV ble'n rhesymol ymarferol
Weldio dwyster uchel a/neu rheolaidd	Nwy, MMA, FCA, MIG, MAG	LEV + Ystyried RPE ategol
Weldio dwyster uchel a/neu rheolaidd tu allan yn yr awyr agored	Nwy, MMA, FCA, MIG, MAG, TIG	RPE ble nad yw LEV yn rhesymol ymarferol
Weldio hwnt ac yma neu ddwyster isel	TIG a weldio sbotyn ymwrthedd	Awyru cyffredinol da
Weldio dwyster uchel a/neu rheolaidd	TIG a weldio sbotyn ymwrthedd	LEV

Diffiniadau a ddefnyddir yn y tabl uchod:

- Weldio dwyster uchel: weldio mynych trwy gydol y shift. Amser arch weldio o fwy nag 1 awr fesul weldiwr fesul shift
- Weldio dwyster isel: weldio sy'n parhau llai nag 1 awr fesul weldiwr fesul shift
- Weldio rheolaidd: weldio dyddiol neu wythnosol **ar unrhyw ddwyster**
- Weldio hwnt ac yma: weldio achlysurol a gyflawnir llai nag unwaith yr wythnos sy'n achlysurol i weithgaredd craidd y busnes ac na ellir cynllunio ar ei gyfer, er enghraifft gwaith cynnal a chadw neu drwsio.

Peryglon

- ✓ Mygdarth weldio (sy'n cynnwys nwyon poenus megis ocsidau o nitrogen ac osôn) a allai achosi poen resbiradol a thwymyn mygdarth metel. Gall hefyd gynyddu tueddiad i niwmonia. Yn y tymor hwy, gallai arwain at glefydau difrifol yr ysgyfaint, yn cynnwys asthma galwedigaethol a chanser. Mae'r dystiolaeth gyfredol yn awgrymu y gallai amlygiad i fygdarth weldio achosi clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD). Fodd bynnag, nid oes digon o ystadegau i brofi cyswllt diffiniol. Gallai mygdarth weldio hefyd achosi effeithiau niwrolegol andwyol yn deillio o amlygiad i fanganîs, sy'n hollbresennol mewn dur meddal, rhai mathau o ddrur gwrthstaen a nwyddau weldio.
- ✓ Gall nwyon cysgodi (megis argon, heliwm a nitrogen, neu gymysgeddau seilliedig ar argon yn cynnwys carbon deuocsid, ocsigen neu'r ddau) achosi mygu (tagiad oherwydd diffyg ocsigen), fel arfer yn deillio o groniad y nwyon mewn mannau cyfyng ac/neu ddadleoliad yr ocsigen.

Offer a gweithdrefnau

Cyn dechrau weldio:

- ✓ Cynlluniwch y gwaith fel bod angen llai o weldio, e.e. trwy ddefnyddio technegau asio oer, ffasnoddion mecanyddol, metel trwch teneuach neu dechnolegau adlydol newydd.
- ✓ Tynnwch sailm a phob gorchudd arwyneb gyntaf cyn weldio. Efallai y bydd paent a chaenau resin yn rhyddhau elfennau gwenwynig wrth eu gwresogi.
- ✓ Gosodwch y darn gwaith a lwfer LEV i leihau amlygiad i'r mygdarth sy'n codi i'r gweithiwr.
- ✓ Wrth weldio tu allan yn yr awyr agored, fel arfer nid yw LEV yn ddewis ymarferol i gipio mygdarth, defnyddiwch RPE fel dewis rheoli amgen addas.


Cael awyriad gwacáu lleol (LEV) wedi ei gynllunio'n dda.

- ✓ Sicrhewch eich bod yn dewis y dyluniad echdynnu mwyaf ymarferol ar gyfer eich prosesau weldio. Mae'n bwysig bod yr holl elfennau wedi eu cynllunio'n dda ac yn cyd-fynd â gofynion eich proses. Mae dyluniad y lwfer yn arbennig o bwysig gan mai dyma'r fewnfa aer i'r system LEV; mae'n pennu pa mor dda mae'r system yn cipio'r mygdarth.
- ✓ Defnyddiwch gyflenwr systemau LEV dibynadwy. Dylai peirianwyr awyru fyddwch chi'n eu gwahodd i ymgeisio am gontract allu dangos eu profiad o'r math yma o waith.
- ✓ Darparwch ffordd hawdd o wirio os yw'r LEV yn gweithio, e.e. dangosydd llif aer.
- ✓ Sicrhewch fod aer wedi ei echdynnu'n cael ei ryddhau'n ddelfrydol tu allan i'r adeilad i le diogel i ffwrdd o ddrysau, ffenestri a mewnlifoedd aer. Pan na fydd hyn yn bosibl, mae angen i aer a echdynnir gan y system LEV gael ei lanhau'n drwyadl, e.e. ei hidlo cyn ei ddychwelyd i'r gweithle.
- ✓ Darparwch hidlydd addas ar gyfer mygdarth weldio yn yr uned echdynnu a sicrhau ei fod yn cael ei archwilio'n rheolaidd a'i amnewid pan fo angen.
- ✓ Gosodwch ddangosydd neu larwm i ddangos os yw hidlyddion wedi eu blocio neu wedi methu.

LEV ar gyfer weldio ar ddarnau gwaith bach a chanolig eu maint

Mae'r rhain yn ddarnau gwaith y gellir eu cludo i weithdy a'u gosod ar fainc weldio neu du fewn i fwth.

- ✓ Defnyddiwch fainc echdynnu neu fwth echdynnu sy'n denu mygdarth i ffwrdd o'r weldiwr a thuag at y fewnfa aer yn y cefn wrth weldio darnau bach i ganolig eu maint. Gyda'r math yma o gynllun LEV, nid oes rhaid ailosod y lwfer echdynnu yn ystod weldio i gynnal cipio mygdarth digonol.
- ✓ Sicrhewch fod mygdarth yn cael ei ddenu i ffwrdd o'r weldiwr trwy'r gyfres o dyllau echdynnu neu slotiau yn y fainc neu fwth. Amgawch cymaint o'r fainc ag sy'n ymarferol i atal drafftiau croes ac i wella effeithiolrwydd cipio mygdarth. Cadwch arwyneb gwaith y fainc a echdynnwyd yn glir o annibendod fel nad yw'n cyfyngu ar symudiad aer.
- ✓ Gosodwch y darn gwaith yn gywir ar y fainc i sicrhau cipio mygdarth yn effeithiol.
- ✓ Sicrhewch fod y darn gwaith (neu'r ardal i'w weldio) yn gyfan gwbl o fewn y bwth.
- ✓ Defnyddiwch ffwrdd tro neu ddaliwr penodol sy'n galluogi gosod i sicrhau bod mygdarth yn cael ei gludo i ffwrdd o'r weldiwr.




Bwrdd weldio ble mae mygdarth weldio yn cael ei gipio ac echdynnu gan y llif aer yn y cefn

LEV ar gyfer weldio ar ddarnau gwaith mawr a mawr iawn


Mae'r rhain yn ddarnau gwaith sy'n gyffredinol yn rhy fawr i'w cludo i fainc gwaith, e.e. mwy na char bach a gall fod yn rhan o brosiect adeiladu mawr.

- ✓ Defnyddiwch echdyniad ar y dorch gan mai dyma'r rheolaeth mygdarth mwyaf effeithiol ar gyfer weldio MIG pan fydd wedi ei sefydlu a defnyddio'n gywir.
- ✓ Ar gyfer mathau eraill o weldio ble na ellir defnyddio echdyniad ar y dorch, defnyddiwch LEV gyda lwfer cipio mygdarth symudol.
- ✓ Sicrhewch ei fod wedi ei sefydlu'n gywir fel y gellir ei ddefnyddio heb gyfaddawdu ar gywirdeb y weldio.
- ✓ Mae echdynnu ar y dorch yn effeithiol oherwydd:
 - mae'r echdynnu yn integredig gyda'r gwn weldio;
 - mae'r echdynnu yn symud gyda'r weldio;
 - mae'r echdynnu yn agos iawn at y ffynhonnell ar bob adeg; ac
 - nid yw'n dibynnu ar y weldiwr i ailosod yr echdyniad i gynnal cipio mygdarth da.
- ✓ Byddwch yn ymwybodol o gyfyngiadau'r cynllun echdyniad ar y dorch yma:
 - Mae angen lleoli'r uned echdynnu yn agos at yr ardal weldio. Felly, nid yw'n ymarferol ei ddefnyddio bob tro pan fydd weldio yn cael ei gyflawni wrth weithio ar uchder.
 - Mae ymchwil wedi datgelu fod echdynnu ar y dorch yn fwy effeithiol wrth weldio ar arwyneb gwastad (e.e. llaw i lawr, llorweddol neu fertigol) nac wrth leinweldio neu weldio rhigol yn y safle uwchben.
 - Mae'r diagram isod yn dangos echdyniad mygdarth ar y dorch ar gyfer weldio MIG.



- ✓ Defnyddiwch lwfer cipio mygdarth symudol ar fraich echdynnu hyblyg ar gyfer gweithfannau mawr i fawr iawn pan na fydd dyluniadau LEV eraill, mwy effeithiol, yn ymarferol.

- ✓ Dewiswch dyluniad lwfer priodol i uchafu cipio mygdarth o'ch proses weldio trwy ystyried ei siâp, maint neu ddiamedr lwfer ac os gellir defnyddio lwfrau cipio deublyg.
- ✓ Gosodwch lwfrau symudol o fewn un diamedr lwfer i'r pwynt weldio i gasglu mygdarth yn effeithiol, fel arall ni fydd yn cipio'r mygdarth weldio.
- ✓ Gall fod yn ddefnyddiol nodi parth cipio lwfer symudol.
- ✓ Sicrhewch y gosodir ac ailosodir y lwfer cipio yn ofalus mor aml ag sydd angen i gynnal cipio mygdarth optimaidd.
- ✓ Sicrhewch fod dwythellau yn rhydd o droeon a phlygiadau aciwt, tyllau a chraciau ac osgoi darnau hir o ddwythellau hyblyg.
- ✓ Mae'r diagram isod yn dangos rheoliadau mygdarth weldio addas ar gyfer weldio dwyster uchel rheolaidd ar ddarnau gwaith mawr i fawr iawn.



Offer resbiradol amddiffynnol (RPE)


- ✓ Efallai y bydd angen RPE pan na fydd echdynnu mygdarth ynddo'i hun yn darparu digon o reolaeth ac wrth weldio tu allan. Bydd rhai prosesau weldio o ddwyster uchel ac/neu hyd arwyddocaol gydag LEV hefyd yn galw am wisgo RPE ategol i ddiogelu iechyd y weldiwr:
 - wrth ddefnyddio proses weldio sy'n cynhyrchu llawer o fygdarth, e.e. weldio MMA, FCA neu MIG, am gyfnod arwyddocaol o amser yn ystod y shift; A
 - mae maint neu siâp y darn gwaith i'w weldio yn golygu nad yw'r LEV a ddarparwyd yn gallu darparu rheolaeth mygdarth cyson ar gyfer pob weldiad.

- ✓ Efallai y bydd hefyd angen RPE mewn sefyllfaoedd pan nad yw'r system LEV yn gallu cyflawni a chynnal cipio cyson o'r mygdarth a gynhyrchwyd, e.e. defnyddio lwfer cipio mygdarth symudol ar fraich hyblyg ar ddarn gwaith mawr gyda rhediadau hir o weldiadau sy'n galw am ailosod y lwfer cipio'n gyson i gynnal rheolaeth mygdarth dibynadwy yn debygol o arwain at amlygiad mygdarth weldio gan fod rheoli'r mygdarth yn ddibynnol iawn ar y weldiwr.
- ✓ Efallai y bydd angen arolwg monitro aer hylendid galwedigaethol a gynlluniwyd i fesur amlygiad weldwyr i fygdarth i gadarnhau pa mor effeithiol yw rheoliadau ac i bennu os oes angen RPE hefyd.
- ✓ Efallai y bydd rhaid cyflawni rhai tasgau weldio mewn lleoliad gwaith dros dro,
- ✓ e.e. gweithio ar uchder, ble mae'r asesiad risg wedi pennu nad yw'n rhesymol ymarferol i ddefnyddio LEV. Dan yr amgylchiadau hyn, darparwch RPE i bob gweithiwr yn yr ardal sy'n debygol o fod wedi eu hamlygu i'r mygdarth a sicrhau y darperir awyriad cyffredinol da i atal y mygdarth rhag ymdroi.
- ✓ Darparwch RPE gyda ffactor amddiffyn neilltuedig (APF) o 20 neu fwy. Mae angen prawf ffit ar gyfer RPE gyda sêl wyneb tynn.
- ✓ Rhaid i weithwyr sy'n gwisgo RPE tynn fod wedi eillio, a chael eu hyfforddi ar sut i'w osod yn gywir a sut i ofalu amdano.
- ✓ Dywedwch wrth weithwyr i gael gwared ar RPE tafladwy ar ddiwedd y shift, neu'n gynharach os yw eu RPE wedi ei lenwi â mygdarth neu lwch. Newidiwch yr hidlyddion ar anadlyddion yn unol ag argymhellion y gwneuthurwr ac os:
 - yw'r dyddiad terfyn bywyd silff wedi pasio;
 - maent wedi eu difrodi neu halogi'n weladwy;
 - maent yn anoddach i anadlu trwyddynt.
- ✓ Archwiliwch a phrofwch RPE nad yw'n dafladwy yn drylwyr o leiaf unwaith bob mis a chofnodi hyn.
- ✓ Dywedwch wrth weithwyr i wirio bod yr RPE yn gweithio'n iawn cyn pob defnydd.
- ✓ Defnyddiwch anadlydd wedi pweru pan fydd angen i weldiwr gyflawni gwaith weldio am fwy nag 1 awr y dydd.
- ✓ Mae yna fanteision ychwanegol wrth ddewis anadlydd wedi pweru sydd â miswrn weldio annatod i amddiffyn y croen a'r llygaid rhag UV a ffenestr weld glir ychwanegol. Mae'r ddyfais yn diogelu weldwyr gan fod yr anadlydd yn aros yn ei le wrth wirio'r weldiad.
- ✓ Os nad yw'r ddyfais yma ar gael, rhaid i weldiwr aros nes bydd yr holl fygdarth gweladwy wedi diflannu cyn codi ei fiswrn.
- ✓ Dylai anadlyddion wedi pweru a ddefnyddir ar gyfer weldio gynnwys hidlydd gronynnau. Mae gan hidlyddion TH2 ffactor amddiffyn penodedig o 20. Mae gan hidlyddion TH3 ffactor amddiffyn uwch o 40.

Awyru cyffredinol wrth weldio dan do

- ✓ Mae awyru cyffredinol effeithiol yn clirio mygdarth yn gyflym ac yn darparu drafft trwodd. Mae'n angenrheidiol i leihau cronriad mygdarth yn ystod y shift mewn unrhyw amgylchiad pan na fydd mygdarth weldio yn cael ei ddiddymu'n llwyr gan LEV.

- ✓ Rhaid i awyru cyffredinol effeithiol sicrhau bod mygdarth yn cael ei greu o weldio yn cael ei wasgaru a diddymu. Yn y rhan fwyaf o weithdai weldio, bydd awyru cyffredinol mecanyddol yn ofynnol oherwydd nad yw awyru naturiol o ddrysau a ffenestri agored yn ddigonol i wasgaru'r mygdarth a grëir o'r tasgau gwaith.
- ✓ Ar gyfer prosesau sy'n cynhyrchu ychydig iawn o fygdarth mewn ardal waith o faint arwyddocaol, efallai y bydd awyru cyffredinol effeithiol yn rheoli amlygiad yn ddigonol. Mae enghreifftiau yn cynnwys weldio sbotyn ymwrthedd a weldio TIG dwyster isel.
- ✓ Mae awyru cyffredinol mecanyddol yn defnyddio gwyntyllau wedi eu gosod yn y nenfwd neu yn uchel i fyny ar wal i echdynnu'r aer yn yr ystafell ac i dynnu aer glân i mewn i wasgaru llygryddion yn yr aer. Mae'r systemau gwyntyllu yma yn gweithio'n dda gyda nifer o ffynonellau mygdarth isel mewn ardaloedd gwaith mawr gyda nenfydau uchel.



Comisiynu, cynnal a chadw, archwilio a phrofi LEV

Pan fydd system LEV wedi ei phrynu, sicrhewch ei bod yn cael ei gomisiynu. Gall y cyflenwr LEV gyflawni hyn neu gwmni profi LEV. Mae comisiynu yn darparu:

- manyleb y dyluniad;
- y gwiriadau a gyflawnwyd i sicrhau rheolaeth mygdarth;
- y data angenrheidiol ar gyfer ei berfformiad technegol.
- ✓ Cadwch yr holl offer a ddefnyddir ar gyfer y dasg mewn cyflwr gweithredol effeithiol.
- ✓ Ei gynnal yn unol â chyngor y cyflenwr neu osodwr.
- ✓ Gwiro am arwyddion o ddfrod i'r offer LEV cyn dechrau gweithio.
- ✓ Dylai eich cyflenwr LEV fod wedi darparu llawlyfr i ddefnyddwyr sy'n cynnwys sut i ddefnyddio'r system, sut i'w gynnal, y darnau sbâr sydd ar gael a rhestr o bethau a all fynd o chwith.
- ✓ Mae systemau LEV yn gofyn am 'archwiliad a phrawf trylwyr' (TExT) statudol.

- ✓ Trefnwch i beiriannydd gwyntyllu rhannau gyflawni'r TExT o leiaf unwaith pob 14 mis.
- ✓ Cyflawnwch yr holl weithredoedd yn deillio o'r TExT.
- ✓ Cadwch gofnod cyflogwr am o leiaf 5 mlynedd ar gyfer pob TExT. Mae paragraff 186 L5 ACOP COSHH yn disgrifio'r wybodaeth ddylid ei chadw er mwyn dangos fod yr LEV yn perfformio fel y bwriadwyd yn wreiddiol.
- ✓ Cyflawnwch wiriadau gweledol wythnosol fod yr LEV yn gweithio a chadw cofnod.
- ✓ Dylech gael llyfr cofnodi system LEV sy'n cynnwys amserlenni a chofnodion gwirio, cynnal a chadw ac atgyweiriadau rheolaidd.
- ✓ Mae nifer o fesurau ar gael i wirio effeithiolrwydd rheoliadau. Mae'r rhain yn amrywio o dechnegau ansoddol syml (defnyddio lamp llwch) i dechnegau meintiol cymhleth (e.e. samplau aer).

Goruchwyliaeth iechyd

Darparwch oruchwyliaeth iechyd ar gyfer asthma ble mae yna debygolrwydd rhesymol y gallai asthma ddigwydd yn eich gweithle, er enghraifft, wrth weldio'n rheolaidd gyda metelau a fydd yn cynhyrchu sensitifrwydd resbiradol yn y mygdarth weldio. Gweler dalen G402.

Hyfforddiant a goruchwyliaeth

- ✓ Darparwch oruchwyliaeth - sicrhewch y dilynir gweithdrefnau gweithio diogel.
- ✓ Dywedwch wrth weithwyr am y peryglon iechyd o fygdarth weldio.
- ✓ Mae gweithio yn y ffordd gywir a defnyddio rheoliadau'n gywir yn bwysig ar gyfer rheoli amlygiad.
- ✓ Darparwch hyfforddiant i weithwyr ar:
 - ddilyn gweithdrefnau gweithio diogel;
 - pryd a sut i ddefnyddio rheoliadau;
 - sut i wirio fod yr LEV yn gweithio'n effeithiol;
 - sut mae'r system LEV yn gweithio;
 - sut i ddefnyddio'r LEV i gael y gorau ohono;
 - sut i leoli eu hunain a'r darn gwaith;
 - pam fod angen RPE;
 - pa RPE sydd wedi ei ddarparu;
 - sut mae RPE yn gweithio;
 - pam fod angen profi ffit (os yn berthnasol);
 - sut i wisgo a gwirio RPE yn gywir;
 - gwirio ffit cyn defnyddio;
 - pa gynnal a chadw sydd angen a phryd;
 - ble a sut ddylid ei lanhau a'i storio;
 - sut i adrodd am/delio gydag unrhyw broblemau;
 - cyfrifoldebau gweithwyr a'r cyflogwr;
 - defnydd a chamddefnydd o RPE.
- ✓ Cynhwyswch reolwyr a goruchwylwyr mewn hyfforddiant iechyd a diogelwch.
- ✓ Ystyriwch gadw cofnodion hyfforddiant.

Gwybodaeth allweddol

WL0 - Cyngor i reolwyr

G402 - Goruchwyliaeth iechyd ar gyfer asthma galwedigaethol

Gwybodaeth pellach

Am ragor o wybodaeth ar iechyd a diogelwch ar gyfer weldio a phrosesau cysylltiedig, ewch i wefan weldio'r HSE:
www.hse.gov.uk/welding/

Am ragor o wybodaeth ar awyriad gwacáu lleol (LEV): HSG258 *Rheoli llygryddion yn yr aer yn y gwaith: Canllaw i awyriad gwacáu lleol (LEV)*:
www.hse.gov.uk/pubns/books/hsg258.htm

Rhagor o wybodaeth ar gyfarpar diogelu resbiradol:
HSG53 *Cyfarpar diogelu resbiradol yn y gwaith - Canllaw ymarferol*:
www.hse.gov.uk/pubns/books/hsg53.htm

Offeryn Dethol Rheolaeth Mygdarth Weldio BOHS Breathe Freely:
www.breathefreely.org.uk/wst/

Cyfeiriadur BOHS o Ymgynghorwyr Hylendid Galwedigaethol:
www.bohs.org/find-expertise/

Aelodau achrededig Sefydliad Peirianwyr Gwyntyllu Gwacau Lleol CIBSE <https://www.cibse.org/institute-of-local-exhaust-ventilation-engineers/ileve-accredited-members>

Offeryn dethol RPE Health Working Lives:
<https://www.healthyworkinglives.scot/resources/rpe-selector-tool/Pages/default.aspx>

Am wybodaeth ar iechyd a diogelwch, ewch i
<https://books.hse.gov.uk> neu <http://www.hse.gov.uk>

Gallwch weld canllaw'r HSE ar-lein ac archebu canllawiau am bris o'r wefan. Mae cyhoeddiadau am bris yr HSE hefyd ar gael o siopau llyfrau.

I adrodd am anghysondeb neu wallau yn y canllaw hwn, anfonwch e-bost at: commissioning@wlt.com

Rhestr wirio cyflogai

- Ydych chi'n sicr am weithdrefnau gwaith diogel?
- A yw'r offer mewn cyflwr gweithredol da ac yn gweithio'n iawn?
- Ydych chi'n gwybod sut i ddefnyddio'r system
- echdynnu weldio yn gywir?
- Chwiliwch am arwyddion traul a difrod.
- Defnyddiwch, cynhaliwch a storiwch eich PPE yn unol â'r cyfarwyddiadau.
- Os byddwch yn cael unrhyw anhawster, rhowch wybod i'ch goruchwylwr. Peidiwch â
- dal ati i weithio.
- Cydweithredwch gyda goruchwyliaeth iechyd.
- Golchwch eich dwylo cyn cychwyn y gwaith, a chyn bwyta, yfed, ymysgu,
- defnyddio'r lle chwech ac wedi gwaith.
- Peidiwch byth â golchi eich dwylo gyda thoddyddion
- na chynnyrch glanhau crynodedig.
- Defnyddiwch eli croen yn unol â'r cyfarwyddyd.